



St Elvis, Solfach

Teithiau Byr



St Elvis, Solfach

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 15 munud

Pellter: 2.4 milltir (3.9 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Solfach 411, *Pâl Gwibio
400 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM805241

**Mae yna siambrau claddu,
porthladdoedd a llond lle o
wylanod ar hyd y daith hon i
Gribyn.**

Chwiliwch am: Bryngaer Oes
Haearn, Cromlech yn Sant Elfis .

Y Gribyn yw copa serth y bryn i'r
dwyrain o'r fynedfa i'r harbwr. Roedd
yn safle amddiffynnol da a
ddefnyddiwyd yn yr Oes Haearn fel
caer. Ar un adeg, cynhyrchwyd carreg
galch yn Solfach ac mae olion o'dyn
galch a ddefnyddiwyd ddiwethaf yn
1900 gerllaw. Ar y Gribyn, mae yna
olygfeydd gwych allan i'r môr a diolch
i'r clystyrau o glustog Fair, serennyn,
campion a fioled mae'n lleoliad
lliwgar yn ystod y tymor.

Efallai y gwelwch chi ambell aderyn y
môr yma - gwylanod, weithiau
gwylanod y graig a mulfrain, gydag
ambell jac-y-do a chudyll coch.
Chwiliwch am y Creigiau Du wrth y
fynedfa i'r harbwr a phenrhyn Dinas
Fawr sy'n ymlwybro tua'r môr. Tua'r
tir, mae'n werth ymweld â Siamb
Gladdu Sant Elfis uwchlaw Eglwys
Sant Teilo.

Mae Ian Meopham, Parcmon Sector y
Gorllewin gydag Awdurdod Parc
Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi
cerdded y daith hon. Mae'n dweud:
"Lle da i weld brain coesgoch. Mae'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn
gobeithio ailgyflwyno pori i'r Gribyn

er mwyn dod â'r ardal yn ôl at natur
trwy gynllun pori Gwarchod y
Godiroedd / Coastal Slopes."

Cymeriad: Arfordir garw,
graddiannau serth, sticlau, caeau a da
byw.

Mwy o wybodaeth: Rhaid cadw
cŵn ar dennyn: mae 6 o wartheg
wedi disgyn dros y clogwyn oherwydd
cŵn rhydd.

